Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## Jamil Dental, Hirwaun, Rhondda Cynon Taf

Dyddiad yr arolygiad: 07 Mai 2025
Dyddiad cyhoeddi: 07 Awst 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ


Neu


Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk


ISBN Digidol 978-1-80633-259-5
© Hawlfraint y Goron 2025

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol – rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom ........ 5

2. Crynodeb o'r arolygiad ........ 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym ........ 8

- Ansawdd Profiad y Claf ........ 8
- Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol ........ 12
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........ 16

4. Y camau nesaf ........ 18

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ........ 19

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ........ 20

Atodiad C – Cynllun gwella ........ 21

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Jamil Dental, Hirwaun, Rhondda Cynon Taf ar 07 Mai 2025.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr gofal iechyd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o 20 o holiaduron gan gleifion a chwblhawyd tri gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

# 2. Crynodeb o'r arolygiad

## Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:
Nodwyd gennym fod y staff yn Jamil Dental yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w cleifion.

Gwelsom fod y staff yn trin y cleifion mewn modd cwrtais, cyfeillgar a phroffesiynol. Roedd amrywiaeth dda o wybodaeth yn cael ei darparu i gleifion am y gwasanaeth a'r triniaethau a ddarperir.

Dywedodd pob un ond un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth yn dda iawn neu'n dda.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod y Datganiad o Ddiben yn gywir ac yn gyfredol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Amgylchedd dymunol mewn cyflwr da
- Roedd gwybodaeth ddefnyddiol ar gael yn glir i gleifion
- Roedd fersiwn print bras o'r daflen wybodaeth i gleifion ar gael yn hawdd
- Roedd y gwasanaeth yn annog adborth gan gleifion, ac yn gweithredu arno.

## Darparu  Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:
Roedd polisïau a gweithdrefnau ar waith i helpu i sicrhau gofal diogel ac effeithiol. Roedd y practis mewn cyflwr da ac yn drefnus. Roedd y deintyddfeydd yn cynnwys digon o gyfarpar ac yn addas at y diben.

Roedd y staff yn dilyn gweithdrefnau atal a rheoli heintiau clir i sicrhau bod offer deintyddol yn cael eu dihalogi a'u sterileiddio. Roedd ystafell ar wahân yn cael ei defnyddio i ddihalogi, ac mae hyn yn arfer dda yn ein barn ni. Roedd gweithdrefnau cadarn ar waith ar gyfer defnyddio meddyginiaethau a chyfarpar clinigol yn ddiogel.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Atgyweirio'r mân ddifrod i'r gwaith plastr er mwyn sicrhau bod arferion glanhau effeithiol ar waith
- Sicrhau bod cofnodion cleifion yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol

- Sicrhau bod y cofrestriad ag AGIC yn gyfredol mewn perthynas â darpariaeth y broses tawelyddu ymwybodol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yr arweinwyr diogelu wedi ymgymryd â hyfforddiant hyd at Lefel 3
- Roedd y cyfarpar clinigol yn ddiogel ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol
- Roedd mesurau priodol ar waith i sicrhau arferion rheoli heintiau o safon uchel

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:
Gwelsom fod arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir ar waith yn Jamil Dental. Roedd perchennog a rheolwr y practis yn dangos ymrwymiad i ddarparu gofal o safon uchel.

Roedd cofnodion y staff yn cael eu cadw'n dda, a gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf yn unol â gofynion rheoliadol. Gwelsom dystiolaeth hefyd o gyfarfodydd staff rheolaidd a phrosesau rheoli perfformiad.

Roedd amrywiaeth gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau ar waith. Roedd y rhain yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd.

Roedd y practis yn gwneud defnydd da o systemau electronig er mwyn helpu i reoli a gwella'r gwasanaeth.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Rheolaeth effeithiol o'r ddeintyddfa, fel rhan o grŵp o bractisau
- Roedd systemau ar waith i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd
- Systemau a chofnodion cadarn ar gyfer recriwtio a chyflogi staff.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Ansawdd Profiad y Claf

### Adborth gan gleifion

Ar y cyfan, cafwyd sylwadau cadarnhaol gan y cleifion hynny a ymatebodd i holiadur AGIC, gyda 18 allan o 20 o ymatebwyr yn dweud bod y gwasanaeth yn dda iawn.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *"Yn gyfeillgar ac yn broffesiynol iawn."*
>
> *"Rwyf wedi bod yn mynd i'r practis hwn ers dros 20 mlynedd a thrwy'r newid diweddar mewn perchnogaeth. Rwyf yn teimlo'n gyfforddus yn yr amgylchedd cyfarwydd ac mae pob aelod o'r tîm yn gyfeillgar iawn, yn barod i helpu, yn broffesiynol ac yn diwallu fy anghenion ychwanegol."*

### Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

**Hybu iechyd a gwybodaeth i gleifion**
Gwelsom amrywiaeth dda o daflenni a phosteri yn yr ardaloedd aros ac roedd ffolder gynhwysfawr o wybodaeth i gleifion ar gael. Roedd y taflenni a'r posteri hyn yn rhoi gwybodaeth i gleifion am y gwasanaethau a'r triniaethau a ddarperir, sut i gynnal hylendid deintyddol ac iechyd da y geg, a ffioedd triniaethau.

Roedd Datganiad o Ddiben y gwasanaeth ar gael ar wefan y practis ac yn y ffolder gwybodaeth i gleifion. Roedd y Datganiad o Ddiben wedi'i ddiweddaru i gyfeirio at Reolwr Cofrestredig newydd, cyn i'r newid hwn gael ei gymeradwyo gan AGIC.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y Datganiad o Ddiben a ddarperir i'r cleifion yn gyfredol ac wedi'i gymeradwyo gan AGIC.**

Roedd copïau o'r daflen wybodaeth i gleifion ar gael yn hawdd i gleifion fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Roedd lluniau o'r staff clinigol, yn ogystal â'u henwau a'u rolau wedi'u harddangos yn yr ardal aros. Roedd rhifau cofrestru'r staff â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos hefyd.

Dywedodd pawb ond un a ymatebodd i holiadur AGIC fod y staff wedi esbonio iechyd y geg yn glir ac roedd pawb ond dau yn cytuno bod y staff wedi rhoi cyfarwyddiadau ôl-ofal ar sut i gynnal iechyd y geg da iddynt.

**Gofal urddasol a pharchus**

Roedd drysau'r deintyddfeydd yn cael eu cadw ar gau yn ystod triniaethau ac roedd ffenestri allanol yn cael eu gorchuddio er mwyn sicrhau preifatrwydd ac urddas y cleifion. Roedd cerddoriaeth yn cael ei chwarae yn yr ardaloedd cyhoeddus a oedd yn helpu i sicrhau preifatrwydd y cleifion yn y dderbynfa.

Dywedodd y staff wrthym y byddai cleifion sydd am gael sgwrs breifat yn cael mynd i ddeintyddfa sydd ar gael.

Roedd prisiau'r triniaethau i'w gweld yn glir i gleifion yn yr ardal aros ac wrth ddesg y dderbynfa.

Roedd naw egwyddor moesegol ymarfer craidd a sefydlwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos er mwyn dangos yr hyn y dylai'r cleifion ei ddisgwyl gan weithwyr deintyddol proffesiynol.

Roedd gan y practis Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwyr cyfredol ar waith. Fodd bynnag, nid oedd copi o'r dystysgrif yn cael ei arddangos. Ymdriniwyd â hyn yn ystod yr arolygiad a chafodd y dystysgrif ei hargraffu a'i harddangos.

Roedd pob un ond un ymatebwr a gwblhaodd holiadur AGIC yn teimlo ei fod yn cael ei drin ag urddas a pharch.

**Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn**

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion chwe chlaf, a gadarnhaodd fod gwybodaeth adnabod a hanes meddygol priodol yn cael eu cofnodi.

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC a fynegodd farn fod y staff wedi rhoi digon o wybodaeth iddynt ddeall pa opsiynau triniaeth oedd ar gael, ynghyd â'u risgiau a'u manteision.

## Amserol

**Gofal amserol**

Dywedodd y staff wrthym y byddai'r staff clinigol sy'n gweithio yn y deintyddfeydd yn rhoi gwybod i staff y dderbynfa am unrhyw oedi. Byddai'r cleifion wedyn yn cael gwybod am yr oedi ar lafar ac yn cael cynnig yr opsiwn i aildrefnu'r apwyntiad pe baent yn dymuno gwneud hynny.

Roedd oriau agor y practis wedi'u harddangos yn glir ger y drws ffrynt, yn y daflen wybodaeth i gleifion ac ar wefan y practis.

Gallai cleifion drefnu apwyntiadau dros y ffôn, yn bersonol neu gyflwyno ymholiad drwy wefan y practis.

Dywedodd y staff wrthym fod apwyntiadau brys wedi'u cynnwys yn yr amserlen ddyddiol a'u bod yn cael eu blaenoriaethu, yn seiliedig ar symptomau ac anghenion clinigol cleifion.

Dywedodd pawb ond un ymatebydd a gwblhaodd holiadur AGIC ei bod naill ai'n 'hawdd iawn' neu'n 'eithaf hawdd' cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt. Dywedodd wyth o'r 19 o gleifion a ymatebodd na fyddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem frys. Fodd bynnag, gwnaethom nodi yn ystod yr arolygiad bod y rhif cyswllt mewn argyfwng wedi'i arddangos yn glir y tu allan i'r practis, yn y daflen wybodaeth i gleifion ac ar wefan y practis.

## Teg

**Cyfathrebu ac iaith**
Roedd gwasanaethau cyfieithu ar gael i'r staff pe bai eu hangen ar gyfer cleifion nad ydynt yn siarad Saesneg. Dywedwyd wrthym fod y cleifion hefyd yn defnyddio ap cyfieithu ar eu ffonau symudol.

Roedd y daflen wybodaeth i gleifion ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

**Hawliau a chydraddoldeb**
Roedd gan y practis llawlyfr cyflogwr a oedd yn cynnwys adran gynhwysfawr ar gyfer cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer y staff a'r cleifion. Roedd hyn yn cynnwys deddfwriaeth berthnasol, nodweddion gwarchodedig, mathau o wahaniaethu a'r camau i'w cymryd i atal achosion o wahaniaethu.

Dywedodd y staff wrthym fod enwau a/neu ragenwau a ffefrir yn cael eu nodi yng nghofnodion y cleifion, a oedd sicrhau bod cleifion trawsryweddol yn cael eu trin â pharch.

Roedd rhai addasiadau wedi'u gwneud ar gyfer y cleifion ag anawsterau symudedd. Roedd toiled hygyrch i gleifion ar y llawr gwaelod a oedd yn cynnwys handlenni cydio a chortyn argyfwng. Fodd bynnag, roedd y ddwy ddeintyddfa yn y practis ar y llawr cyntaf. Roedd hyn wedi'i nodi'n glir yn y daflen wybodaeth i gleifion a byddai'r cleifion nad oeddent yn gallu defnyddio'r grisiau yn cael eu cyfeirio at bractis mwy hygyrch.

Roedd dolen sain yn y dderbynfa i helpu cleifion ag anawsterau clywed. Roedd fersiwn print bras o'r daflen wybodaeth i gleifion ar gael yn hawdd yn yr ardal aros.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Diogel

**Rheoli risg**
Gwelsom fod yr adeilad yn lân, mewn cyflwr da ac nad oedd unrhyw beryglon amlwg.

Roedd pibellau yn codi o'r llawr yn yr ystafell a ddefnyddir gan y staff yn unig ar gyfer ymdrin â galwadau a allai achosi perygl o faglu a gwnaethom gynghori y dylid mynd i'r afael â hyn.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gymryd camau i symud y peryglon baglu yn yr ystafell ymdrin â galwadau.**

Roedd polisi cyfredol ar waith ar gyfer cynnal a chadw'r adeilad. Gwnaethom nodi mân ddifrod i'r gwaith plastr a allai effeithio ar y gallu i lanhau'n effeithiol.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff y gwaith plastr sydd wedi'i ddifrodi ei atgyweirio.**

Roedd polisi Iechyd a Diogelwch priodol ar waith yn y practis, a oedd yn cael ei ategu gan amrywiaeth gynhwysfawr o asesiadau risg. Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer trin sylweddau y mae'r rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) yn berthnasol iddynt.

Roedd polisi parhad busnes ac adfer ar ôl trychineb cyfredol ar waith a oedd yn cynnwys rhifau cyswllt mewn argyfwng.

Gwelsom dystiolaeth o Brofion Offer Cludadwy cyfredol, archwiliad bob pum mlynedd o osodiadau trydanol a gwiriadau diogelwch nwy blynyddol.

Gwnaethom edrych ar ddogfennau yn ymwneud â diogelwch tân a gwelsom fod asesiad risg tân priodol ar waith. Gwnaethom gynghori y dylid nodi'r meysydd a nodwyd yn yr asesiad risg mewn cynllun gweithredu er mwyn monitro'r cynnydd. Ymdriniwyd â hyn yn ystod yr arolygiad a chafodd cynllun gweithredu priodol ei roi ar waith.

Roedd arwyddion clir ar gyfer y llwybrau dianc, a gwelsom dystiolaeth bod ymarferion tân wedi cael eu cynnal. Gwnaethom nodi fod llwybr dianc rhag tân ar ochr yr adeilad wedi'i rwystro'n rhannol gan fagiau gwastraff o eiddo gerllaw.

Cafodd y rhain eu symud yn ystod yr arolygiad i sicrhau bod llwybr ymadael clir ar gael.

Roedd y diffoddwyr tân wedi cael eu gosod ar y waliau ac roedd arwyddion priodol ar eu cyfer. Nid oedd yn rhaid gwasanaethu'r mathau o ddiffoddwyr tân a ddefnyddiwyd bob blwyddyn yn ystod eu cylch oes o 10 mlynedd. Roedd gwiriadau gweledol rheolaidd yn cael eu cynnal ar y diffoddwyr tân gan y staff. Gwnaethom gynghori y dylai'r rhestr wirio a ddefnyddir gan y staff gynnwys mwy o fanylder i egluro beth y dylid edrych amdano ac i gofnodi'r canfyddiadau. Aed i'r afael â hyn yn ystod yr arolygiad a diweddarwyd y broses i gynnwys y gwiriadau penodol y dylid eu cynnal.

Roedd cyfleusterau newid a loceri ar gyfer storio eitemau personol ar gael i'r staff. Roedd y toiled rhywedd cymysg i gleifion yn lân yr olwg, ac roedd yn cynnwys cyfleusterau golchi a sychu dwylo addas ac uned gwaredu eitemau mislif.

**Atal a rheoli heintiau a dihalogi**
Roedd trefniadau i sicrhau bod dulliau rheoli heintiau o safon dda ar waith. Roedd y rhain yn cynnwys polisïau a gweithdrefnau rheoli heintiau priodol ac arweinydd rheoli heintiau dynodedig. Gwelsom fod trefn lanhau effeithiol yn y practis.

Roedd ystafell ddynodedig yn y practis ar gyfer dihalogi a sterileiddio offer deintyddol, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru WHTM 01-05. Roedd y gweithdrefnau ar gyfer prosesu, dihalogi a sterileiddio offer deintyddol yn briodol ac roedd y staff yn eu deall yn dda. Roedd gwiriadau priodol yn cael eu cynnal o'r cyfarpar dihalogi ac yn cael eu cofnodi.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion pedwar aelod o'r staff a gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi cael brechlyn yn erbyn haint Hepatitis B.

Gwnaethom adolygu'r trefniadau ar gyfer gwaredu gwastraff, gan gynnwys gwastraff clinigol, a gwelsom eu bod yn briodol.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC fod y practis yn 'lân iawn' neu'n 'eithaf glân' a bod mesurau atal a rheoli heintiau amlwg ar waith.

**Rheoli meddyginiaethau**
Roedd polisi rheoli meddyginiaethau ar waith yn ogystal â gweithdrefnau ar gyfer defnyddio, storio a gwaredu meddyginiaethau yn ddiogel.

Nid oedd oergell ar wahân ddynodedig ar gyfer meddyginiaethau yn y practis. Aed i'r afael â hyn yn ystod yr arolygiad ac archebwyd oergell ychwanegol.

Gwnaethom archwilio'r trefniadau a oedd ar waith a'r cyfarpar a oedd ar gael i ddelio ag argyfyngau meddygol. Roeddem o'r farn bod y rhain yn foddhaol, bod y cyffuriau brys yn gyfredol a bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal. Gwnaethom nodi bod y cyffuriau brys yn cael eu storio mewn ystafell lle y gallai'r tymheredd effeithio ar eu heffeithlonrwydd dros amser o bosibl. Gwnaethom gynghori y dylid cynnal gwiriadau o'r cyffuriau brys ac y dylid eu storio mewn lleoliad arall os bydd angen.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig fonitro tymheredd y lleoliad ar gyfer storio cyffuriau brys a'i adolygu yn erbyn yr amodau storio a gaiff eu hargymell.**

Cadarnhaodd y staff eu bod wedi cael hyfforddiant ar ddefnyddio ocsigen mewn argyfwng fel rhan o'r hyfforddiant adfywio cardiopwlmonaidd (CPR). Gwnaethom argymell y dylai'r staff hefyd gwblhau hyfforddiant penodol ar ddefnyddio silindrau ocsigen yn ddiogel, yn unol â hysbysiad diogelwch diweddar. Ymdriniwyd â hyn ar unwaith ar ôl yr arolygiad a rhoddwyd y tystysgrifau hyfforddiant i AGIC.

Gwnaethom edrych ar gofnodion hyfforddiant y staff a gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar CPR. Roedd pedwar aelod o'r staff wedi cael eu penodi'n swyddogion cymorth cyntaf ac roeddent wedi cael yr hyfforddiant priodol.

### Diogelu plant ac oedolion

Roedd polisïau a gweithdrefnau diogelu oedolion a phlant ar waith ac roeddent ar gael i bob aelod o'r staff. Roedd y rhain yn cynnwys siart lif a manylion cyswllt allanol. Nid oedd y staff yn ymwybodol o weithdrefnau diogelu cenedlaethol Cymru. Ymdriniwyd â hyn yn ystod yr arolygiad a lawrlwythodd rheolwr y practis yr ap ffôn a'i rannu â'r staff.

Gwnaethom edrych ar gofnodion sampl o staff a gwelsom dystiolaeth eu bod wedi cael hyfforddiant priodol a chyfredol ar ddiogelu plant ac oedolion. Roedd yr arweinwyr diogelu wedi ymgymryd â hyfforddiant hyd at Lefel 3 sy’n enghraifft o arfer da yn ein barn ni.

### Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Gwnaethom edrych ar ddogfennaeth yn ymwneud â defnyddio cyfarpar pelydr-X, a gwelsom fod gweithdrefnau priodol a chofnodion cynnal a chadw ar waith. Gwnaethom edrych ar gofnodion hyfforddiant y staff a gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol). Roedd gwybodaeth am fanteision a risgiau dod i gysylltiad â phelydr-X ar gael yn hwylus i'r cleifion.

Yn ystod y drafodaeth cyn yr arolygiad, nodwyd gennym fod y practis yn darparu tawelyddion ymwybodol i'r cleifion. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd y gwasanaeth hwn wedi'i gynnwys yn amodau cofrestru'r practis ag AGIC. Gwnaeth y practis gais ar unwaith i ychwanegu'r gwasanaeth hwn at ei gofrestriad ag AGIC a chytunodd i atal triniaethau gan ddefnyddio tawelyddion ymwybodol nes i ganlyniad y cais ddod i law.

Ar adeg yr arolygiad, roedd y broses gwneud cais yn mynd rhagddi ac nid oedd y broses tawelyddu yn cael ei chynnal yn y practis. Fodd bynnag, gwnaethom edrych ar ddogfennaeth yn ymwneud â'r defnydd clinigol o dawelyddion ac ni welsom unrhyw faterion a oedd yn peri pryder na risg sylweddol i ddiogelwch y cleifion.

Gwelsom fod y cyfleusterau a'r cyfarpar a ddefnyddir ar gyfer rhoi tawelyddion ymwybodol i'r cleifion yn ddiogel ac yn briodol. Roedd cyfarpar a gweithdrefnau ar waith i fonitro'r cleifion wrth iddynt gael eu tawelyddu ac i ddelio ag argyfyngau meddygol. Roedd tystysgrifau a ddarparwyd yn ystod yr arolygiad ac yn fuan wedi hynny yn dangos bod y staff wedi cael hyfforddiant arbenigol.

## Effeithiol

### Gofal effeithiol

Gwelsom fod trefniadau diogel ar waith yn y practis ar gyfer derbyn cleifion, eu hasesu, rhoi diagnosis iddynt a'u trin.

Roedd y practis yn defnyddio rhestrau gwirio'r Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwthiol er mwyn lleihau'r risg o dynnu'r dant anghywir.

### Cofnodion cleifion

Roedd cofnodion cleifion yn cael eu cadw'n electronig ac yn unol â pholisi Rheoli Cofnodion priodol.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion chwe chlaf a gwelsom fod gwybodaeth glinigol yn cael ei chofnodi mewn ffordd dda a chyson. Gwnaethom argymell y dylid cofnodi hanes meddygol wedi'i lofnodi a gwybodaeth am ddeiet fel mater o drefn.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cofnodion y cleifion yn cynnwys hanes meddygol wedi'i lofnodi a gwybodaeth am ddeiet.**

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Adborth gan staff

Ymatebodd tri aelod o'r staff i holiadur AGIC, ac roedd y sylwadau'n gadarnhaol. Roedd yr ymatebwyr yn teimlo bod ganddynt nifer priodol o staff, yn ogystal â hyfforddiant a chyfleusterau priodol i ddarparu gofal i'r cleifion ac mai gofalu am y cleifion oedd prif flaenoriaeth y practis. Dywedodd pob un o'r tri ymatebydd y byddent yn argymell y practis fel lle da i weithio ynddo ac yn argymell y gwasanaeth i'w ffrindiau neu berthnasau.

## Arweinyddiaeth

**Llywodraethu ac arweinyddiaeth**
Roedd strwythurau rheoli clir ar waith a gwelsom ymrwymiad clir i ddarparu gwasanaeth o safon uchel ac agwedd gadarnhaol ar gyfer gwneud gwelliannau.

Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal bob wythnos a chyfarfodydd misol ar gyfer clinigwyr. Roedd y rhain yn cynnwys staff o bractisau eraill o'r grŵp ac roedd cofnodion yn cael eu rhannu'n electronig.

Roedd arfarniadau blynyddol yn cael eu defnyddio i drafod perfformiad y staff ynghyd â'r defnydd o gynlluniau datblygu personol.

Gwelsom fod amrywiaeth gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau ar waith a'u bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Roeddent yn cael eu storio ar system electronig, a oedd yn golygu eu bod ar gael i'r staff. Roedd systemau cadarn ar waith i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau yn cael eu cadw'n gyfredol.

## Y Gweithlu

**Gweithlu medrus a galluog**
Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer cyflogi staff. Gwelsom bolisïau a gweithdrefnau a oedd yn rhoi manylion am y broses recriwtio, a oedd yn cynnwys cynnal gwiriadau addasrwydd i weithio addas ar ddarpar gyflogeion. Roedd y gwiriadau hyn yn cynnwys prawf adnabod, yr hawl i weithio, cymwysterau a brechiadau, a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion staff a gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi'u cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, bod ganddynt yswiriant indemniad proffesiynol a'u bod wedi'u brechu'n briodol rhag Hepatitis B. Gwelsom hefyd fod gwiriadau wedi'u cynnal gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Roedd gofynion hyfforddiant staff yn cael eu monitro'n rheolaidd drwy ddefnyddio system electronig. Gwelsom gydymffurfiaeth dda â'r gofynion o ran hyfforddiant gorfodol ac roedd y systemau a oedd yn cael eu defnyddio yn effeithiol.

## Diwylliant

**Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu**

Roedd adborth gan gleifion yn cael ei gasglu, gydag arolygon cleifion yn cael eu cynnal bob chwe mis. Hefyd, gallai'r cleifion roi adborth ar-lein a thrwy ddefnyddio blwch awgrymiadau yn yr ardal aros.

Dywedodd y staff fod adborth gan gleifion yn cael ei adolygu'n rheolaidd a bod adroddiad yn cael ei lunio ddwywaith y flwyddyn a oedd yn coladu'r canlyniadau ac yn nodi'r camau gweithredu a'r themâu.

Roedd poster 'dywedoch chi, gwnaethom ni' yn yr ardal aros ar y llawr uchaf, yn dangos y camau a gymerwyd o ganlyniad i adborth.

Roedd gweithdrefn gwyno gynhwysfawr ar waith, a oedd ar gael yn hwylus i gleifion. Roedd y weithdrefn yn cynnwys amserlenni priodol ar gyfer ymateb a sut i uwchgyfeirio'r mater pe bai angen.

Roedd cwynion llafar ac ysgrifenedig yn cael eu cofnodi drwy ddefnyddio taenlen a oedd yn cynnwys y manylion llawn ac unrhyw gamau a gymerwyd. Roedd cwynion yn cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn nodi tueddiadau neu wersi a ddysgwyd.

## Dysgu, gwella ac ymchwil

**Gweithgareddau gwella ansawdd**

Roedd polisi llywodraethu clinigol a sicrhau ansawdd cyfredol ar waith. Roedd y polisi yn cynnwys adran ar roi gwybod am ddigwyddiadau a dysgu ohonynt ac yn amlinellu'r gofynion ar gyfer rhoi gwybod am fathau gwahanol o ddigwyddiadau.

Gwelsom dystiolaeth bod archwiliadau clinigol ac anghlinigol yn cael eu cynnal, gan gynnwys rhoi'r gorau i smygu, y defnydd o wrthfiotigau, cofnodion clinigol a llunio radiograffig.

Roedd y practis yn casglu adborth gan y staff mewn cyfarfodydd tîm a thrwy ffurflenni adborth electronig dienw.

Dywedwyd wrthym fod cais wedi cael ei gyflwyno i ddefnyddio'r adnodd datblygu matrics aeddfedrwydd a ddarperir gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC).

# 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion | Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Roedd llwybr dianc rhag tân ar ochr yr adeilad wedi'i rwystro'n rhannol gan fagiau gwastraff o eiddo gerllaw. | Mae rhwystrau ar lwybr dianc rhag tân yn cynyddu'r risg i gleifion a'r staff pe bai tân. | Cafodd hyn ei godi gyda'r rheolwr cofrestredig. | Cafodd yr eitemau eu symud yn ystod yr arolygiad i sicrhau bod llwybr ymadael clir ar gael. |
| Gwnaethom argymell y dylai'r staff gwblhau hyfforddiant penodol ar ddefnyddio silindrau ocsigen yn ddiogel, yn unol â hysbysiad diogelwch diweddar. | Mae hyfforddiant ar ddefnyddio silindrau ocsigen yn ddiogel yn lleihau'r risg i'r cleifion a'r staff. | Cafodd hyn ei godi gyda'r rheolwr cofrestredig. | Ymdriniwyd â hyn ar unwaith ar ôl yr arolygiad a rhoddwyd y tystysgrifau hyfforddiant i AGIC. |
| Yn ystod y drafodaeth cyn yr arolygiad, nodwyd gennym fod y practis yn darparu tawelyddion ymwybodol i'r cleifion. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd y gwasanaeth hwn wedi'i gynnwys | Mae cofrestru gwasanaethau tawelyddu ag AGIC yn ofyniad cyfreithiol i wneud yn siŵr bod mesurau priodol ar waith er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion. | Cafodd hyn ei godi gyda'r rheolwr cofrestredig. | Gwnaeth y practis gais ar unwaith i ychwanegu'r gwasanaeth hwn at ei gofrestriad ag AGIC a chytunodd i atal defnyddio tawelyddion ymwybodol nes i ganlyniad y cais ddod i law. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| yn amodau cofrestru'r practis ag AGIC. | | | |

# Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Jamil Dental

## Dyddiad yr arolygiad: 07 Mai 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

| Risg/canfyddiad/mater | | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | Ni nodwyd unrhyw faterion yn ymwneud â diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad. | | | | | |

# Atodiad C - Cynllun gwella

**Gwasanaeth:** Jamil Dental

**Dyddiad yr arolygiad:** 07 Mai 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Risg/canfyddiad/mater | | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | Nid oedd rhywfaint o'r wybodaeth yn Natganiad o Ddiben y practis wedi cael ei chymeradwyo gan AGIC. | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y Datganiad o Ddiben a ddarperir i'r cleifion yn gyfredol ac wedi'i gymeradwyo gan AGIC. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 7 | Nid oeddem wedi cynnwys Emily gan ei bod yn aros am ei chyfweliad ag AGIC o hyd. Mae'r cyfweliad hwn bellach wedi'i gynnal, ac rydym wedi cael yr Hysbysiad o Benderfyniad sy'n enwi Emily fel y Rheolwr Cofrestredig. | Emily Brown | 2 wythnos |
| 2. | Roedd pibellau yn codi o'r llawr yn yr ystafell a ddefnyddir gan y staff yn unig ar gyfer ymdrin | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y risg i'r staff yn cael ei leihau mewn perthynas â'r peryglon baglu yn yr | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 22(2) | Mae'r ystafell hon bellach wedi cael ei throi yn ddeintyddfa arall, a disgwylir i'r gwaith gael ei | Emily Brown | 1 wythnos |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | â galwadau a allai achosi perygl o faglu. | ystafell ymdrin â galwadau. | | gwblhau erbyn dydd Gwener. | | |
| **3.** | Roedd mân ddifrod i'r gwaith plastr a allai effeithio ar y gallu i lanhau'n effeithiol. | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff y gwaith plastr sydd wedi'i ddifrodi ei atgyweirio. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 22(2) | Tolciau bach iawn oedd y rhain ac rydym bellach wedi eu hatgyweirio â llenwad, eu sandio a'u paentio er mwyn sicrhau bod posibl rhoi arferion glanhau effeithiol ar waith fel yr awgrymwyd. | Emily Brown | 1 wythnos |
| **4.** | Roedd y cyffuriau brys yn cael eu storio mewn ystafell lle y gallai'r tymheredd effeithio ar eu heffeithlonrwydd dros amser o bosibl. | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig fonitro tymheredd y lleoliad ar gyfer storio cyffuriau brys a'i adolygu yn erbyn yr amodau storio a gaiff eu hargymell. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 13(4)(a) | Rydym wedi rhoi thermomedr digidol yn y cabinet meddyginiaethau er mwyn monitro'r tymheredd. Dyfais fyw yw hon sy'n anfon darlleniadau at berchennog a rheolwyr y ffôn i'w fonitro'n barhaus. Rydym yn defnyddio'r un ddyfais ar gyfer yr oergell feddyginiaethau ac | Emily Brown | Wedi'i wneud eisoes |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | roedd yr arolygwyr yn fodlon ar y trefniant hwn ar y diwrnod. | | |
| **5.** | Nid oedd hanes meddygol wedi'i lofnodi na gwybodaeth am ddeiet wedi'u cofnodi fel mater o drefn yng nghofnodion y cleifion. | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cofnodion y cleifion yn cynnwys hanes meddygol wedi'i lofnodi a gwybodaeth am ddeiet. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 20(1) | Caiff archwiliadau bob tri mis o'r ffurflenni meddygol a'r cyngor deietegol eu hychwanegu at holl dempledi deintyddol y clinigwyr er mwyn eu harchwilio er cysondeb. | Emily Brown | Parhaus |

Rhaid i’r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (priflythrennau): Emily Brown**

**Swydd:** **Rheolwr Cofrestredig**

**Dyddiad:** **10 Gorffennaf 2025**